

QWB23.2 – Cofnodion o gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2019

Yn Bresennol:

Ann Evans (Cadeirydd), Philip Blaker, Isabel Nisbet, Angela Maguire-Lewis, Ellen Donovan - eitem 1 i 5, Robert Lloyd Griffiths, Claire Morgan, Arun Midha, Jayne Woods, Anne Marie Duffy.

Hefyd yn Bresennol:

Jo Richards (JR), Alison Standfast (AS), Joanne Nicholas (JN), Emyr George (EG) – eitem 5 ar y ffôn, Oliver Stacey (OS) – eitem 5, Kerry Price – eitem 8 a 9, Rachel Heath Davies – eitem 10 ac 11, Judith Askew (JA) – Llywodraeth Cymru.

Ymddiheuriadau:

David Jones, Caroline Burt.

1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datgan Buddiant, Papurau i'w Nodi

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau a oedd wedi dod. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Judith Askew, Pennaeth Tîm Noddi Llywodraeth Cymru, gan mai hwn oedd ei chyfarfod cyntaf.
- 1.2. Gofynnwyd am ddatganiadau buddiant. Nid oedd dim datganiadau newydd.
- 1.3. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw faterion yr hoffent eu trafod o'r papurau gwybodaeth. Tynnodd y Bwrdd sylw at wall yn y papur QWB22.19 - Gwybodaeth Comms a gafodd ei egluro.

2. Cofnodion o gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 16 Mai 2019 a Materion yn Codi

- 2.1. Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mai 2019 yn gofnod cywir o'r cyfarfod. Byddai'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cymwysterau Cymru ar ôl eu cyfieithu.
- 2.2. Cafodd y Bwrdd ddiweddariad am y camau i'w cymryd yn y cofnodion, a'r cyfan wedi eu cyflawni.

Materion yn Codi

- 2.3. Gofynnodd y Bwrdd am y ddiweddariad am swyddogaeth Cymhwyster Cymru ynglŷn â Phrofion Sampl Cenedlaethol. Dywedodd Philip Blaker (PB) wrth y Bwrdd fod angen trafodaeth bellach gyda Llywodraeth Cymru i egluro unrhyw swyddogaeth bosibl yn y dyfodol, ac mai ein swyddogaeth hyd yma oedd helpu Llywodraeth Cymru i lunio'i syniadau eu hunain. Byddai diweddariad ar gael yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.

Gweithredu: PB i drafod Profion Sampl Cenedlaethol gyda Llywodraeth Cymru

- 2.4. Gofynnodd y Bwrdd am ddiweddariad am adroddiad ail-gyfeirio'r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd (EQF). Dywedodd PB wrth y Bwrdd fod y newidiadau terfynol yn cael eu gwneud. Dywedodd hefyd fod gwaith Cymwysterau Cymru yn cael ei wneud drwy gontract gyda Colegau Cymru ac felly byddai'n cael ei gyhoeddi'n ffurfiol yn yr hydref. Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad hefyd ar ein gwefan ni ar ôl ei gyhoeddi gan Golegau Cymru.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cymeradwywyd y cofnodion gan y Bwrdd.
- ii. Nododd y Bwrdd yr holl gamau a oedd wedi eu cwblhau.

3. Diweddariad y Cadeirydd

- 3.1. Darparodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar o'i gweithgareddau'n ddiweddar er gwybodaeth i'r Bwrdd. Ymhlith y gweithgareddau'n ddiweddar roedd cyfarfod gyda Chyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Cymru lle cafodd cwricwlwm, mesurau perfformiad ac leithoedd Modern eu trafod. Dywedodd y Cadeirydd wrth aelodau'r Bwrdd hefyd ei bod wedi ymweld ag ysgol i gwrdd â Phennaeth, ac i hynny fod yn gadarnhaol.
- 3.2. Rhoddwyd diweddariad am recriwtio'r Cadeirydd newydd, a dywedwyd wrth y Bwrdd y byddai David Jones yn dechrau yn ei swydd gyda Chymwysterau Cymru ar 1 Hydref 2019. Byddai'r rhoi'r gorau i'w swydd yng Ngholeg Cambria ym mis Rhagfyr 2019, felly byddai cyfnod pan fyddai'n gwneud y ddwy swydd. Amlinellodd y Cadeirydd y cynllun ar gyfer y trosglwyddo.
- 3.3. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd y byddai'r cynllun gweithredu'n deillio o arolwg perfformiad y Bwrdd yn cael ei gyflwyno ar gyfer sylwadau yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.
- 3.4. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd fod Cymwysterau Cymru wedi bod mewn cyfarfod briffio wedi'i drefnu gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn canolbwyntio ar y cwricwlwm newydd a'r effaith ar fusnes. Llongyfarchwyd Jo Richards (JR) gan y Cadeirydd ar ei chyflwyniad yn y digwyddiad. Cyfeiriodd y Bwrdd at sesiwn friffio amser brecwast a oedd wedi'i threfnu gan Gymwysterau Cymru. Cafodd y sesiwn dderbyniad da, ac roedd rhai busnesau amlwg yno gan ddarparu mynediad i ragor o ymgysylltu. Gofynnodd y Bwrdd am arwydd o'r graddau yr oedd rhanddeiliaid yn pryderu am y cwricwlwm newydd. Dywedodd y Cadeirydd fod cytundeb cyffredinol ar yr egwyddorion, a bod pryderon yn ymwneud yn bennaf â'r adnoddau i'w ddarparu. Trafododd y Bwrdd effaith bosibl etholiadau'r Cynulliad yn 2021.
- 3.5. Diolchodd y Bwrdd i'r Cadeirydd am yr adroddiad a nodwyd y diweddariad.

Gweithredu: Cynllun gweithredu'r Bwrdd i gael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nodwyd diweddariad y Cadeirydd gan y Bwrdd.

4. Adroddiad y Prif Weithredwr

- 4.1. Cyflwynodd Philip Blaker (PB) adroddiad y Prif Weithredwr gan nodi ei fod yn cwmpasu eitemau nad oeddent yn ymddangos rywle arall ar agenda'r Bwrdd.
- 4.2. *Prosiect Iechyd a Gofal Cymdeithasol* - Dywedodd PB wrth y Bwrdd fod y cymwysterau ar gael a fwriadwyd i'w dysgu gyntaf o 2019. Roedd y Consortiwm, gyda chefnogaeth y cyrff sector a Chymwysterau Cymru, wedi bod yn gweithio i sicrhau bod canolfannau ledled Cymru yn barod i allu addysgu'r gyfran gyntaf o gymwysterau newydd o fis Medi. Soniodd PB bod canolfannau wedi bod ychydig yn hwyr yn cael cymeradwyaeth canolfannau. Fodd bynnag, roedd ymdrech wedi bod ar y cyd a'r Consortiwm wedi gweithio'n galed i sicrhau bod y canolfannau'n barod. Rhoddodd PB ddiweddariad am y cynnydd yn y cymwysterau ar gyfer eu dysgu gyntaf o 2020, a oedd yn cynnwys lefel Uwch, cymwysterau newydd lefel 3 ar gyfer Addysg Bellach a nifer o gymwysterau lefel 4 a 5. Tynnodd PB sylw at bryderon am ansawdd y cyflwyniadau lefel 3 cychwynnol, ac at y cymorth a roddwyd i fynd i'r afael â hyn. Cadarnhaodd PB fod y gefnogaeth hon wedi bod yn fuddiol, ac roedd hyder y byddai'r manylion ar gael erbyn diwedd mis Medi. Tynnodd PB sylw at y ffaith fod y cymwysterau 'arbenigedd' lefel 4 yn achosi pryder gan fod barn wahanol gan gyrff sector am y cynnwys. Soniodd PB am y camau a oedd ar waith i fynd â hyn yn ei flaen. Cadarnhaodd PB y byddai monitro ychwanegol yn cael ei gwblhau yn y blynyddoedd cyntaf o weithredu'r cymwysterau newydd.
- 4.3. *Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig* - Dywedodd PB fod y broses gaffael ar gyfer y cymwysterau newydd Sylfaen, Cynnydd a Phrentisiaethau wedi'i chwblhau a'r contract wedi ei roi i City and Guilds, drwy weithio mewn partneriaeth ag EAL. Cydnabuwyd bod City and Guilds yn dod yn ddarparwr allweddol yng Nghymru ac felly dylid ystyried cysylltiadau lefel uchel. Cafwyd diweddariad am y cymwysterau TGAU a lefel Uwch a oedd yn cael eu hystyried gan CBAC, a nodwyd bod rhanddeiliaid yn ymwneud â'r gwaith a bod derbyniad cadarnhaol wedi bod i amlinelliad o'r dyluniad. Cadarnhaodd PB bod y prosiect yn mynd ymlaen yn dda ac wedi elwa o'r gwersi a ddysgwyd o Iechyd a Diogelwch. Soniodd y Bwrdd am risgiau cyflenwad y dyfodol o gymwysterau galwedigaethol o ganlyniad i newid polisïau yn Lloegr. Sicrhawyd y Bwrdd gan PB fod cyfarfodydd yn digwydd gyda chyrrff dyfarnu ar lefel strategol.
- 4.4. *Cydraddoldeb* - Dywedodd PB wrth y Bwrdd fod Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2019-2022 wedi ei gyhoeddi. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi gofyn i'r holl

Gyrff Cyhoeddus ddarparu data cydraddoldeb ar wefannau ar ffurf adnoddau agored. Cadarnhaodd PB fod y taflenni data yn cael eu paratoi, ond ni fyddai data yn cael eu rhoi ar gyfer ardaloedd sy'n ymwneud â llai na phum aelod staff yn ogystal â data mewn cysylltiad â beichiogrwydd wrth recriwtio. Cefnogwyd y penderfyniad hwn gan y Bwrdd.

- 4.5. *Cynllun Iaith Gymraeg* – Dywedodd PB fod y cynllun iaith Gymraeg wedi ei gyhoeddi. O ran arian grant Cymwysterau Cymru, dywedodd PB mai'r bwriad oedd newid y dull i batrwm yn cael ei arwain gan y galw, ac roedd gwaith ar y gweill i grynhoi gwybodaeth i benderfynu ble byddai'r gwerth mwyaf.
- 4.6. *Ail-lunio* – Dywedodd PB wrth y Bwrdd bod ail-lunio bron ar ben a bod ymateb gan yr Undeb wedi bod yn gadarnhaol. Roedd adleoli wedi achosi ychydig ansefydlogi a allai effeithio ar gynhyrchiant. Dywedodd PB y gallai gael rhywfaint o effaith ar ddarpariaethau, a byddai hynny'n cael ei adolygu ym mis Medi. Cydnabu'r Bwrdd y recriwtio sylweddol sydd ar waith, a gofynnodd a oedd y tîm Adnoddau Dynol yn cael ei ariannu'n ddigonol. Awgrymodd y Bwrdd y dylid rhoi ystyriaeth i gynyddu adnoddau yn y maes hwn.
- 4.7. *Codiad Cyflog* – Rhoddwyd y diweddaraaf i'r Bwrdd am drafodaeth cyflog Llywodraeth Cymru a'r effaith bosibl ar Gymwysterau Cymru.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nodwyd adroddiad y Prif Weithredwr gan y Bwrdd a diolchwyd iddi am ei ddiweddariad.

1. Ymgynghori ar gwmpas y cymwysterau 14-16 yn y dyfodol yng Nghymru

- 1.1. Croesawyd Oliver Stacey (OS) ac Emyr George (EG) i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.
- 1.2. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem agenda, a dywedodd wrth aelodau'r Bwrdd fod cais yn cael ei wneud am gymeradwyo ymgynghori ar ystod y cymwysterau 14-16 yn y dyfodol yng Nghymru.
- 1.3. Dywedodd EG wrth y Bwrdd fod hyn yn gyntaf mewn cyfres o ymgynghoriadau ac y byddai'r ymateb o'r Ymgynghori yn golygu cyngor i'r Gweinidog Addysg. Wedyn byddai hyn yn arwain at ymgynghori technegol ar ddylunio cymwysterau ac yna at ymgynghoriadau penodol i bynciau.
- 1.4. Rhoddwyd i'r Bwrdd drosolwg ar lefel uchel o feysydd allweddol y ddogfen ymgynghori, a gwahoddodd EG y Bwrdd i roi eu sylwadau. Codwyd y materion dilynol:
 - Byddai'r Weledigaeth yn elwa o'i mireinio ymhellach.

- Ymgysylltiad rhanddeiliaid - dylid cydnabod yr amrywiol lefelau o ddealltwriaeth yn yr agwedd at ymgynghori, gydag angen penodol i ystyried ymgysylltu â busnes.
 - Dylai symud ymlaen i gymwysterau lefel uwch gael ei adlewyrchu yn y ddogfen.
 - Dylid cydnabod Bagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau.
 - Dylai'r ymgynghori fod yn unol â'r weledigaeth.
 - Dylid bod yn ofalus wrth gynnig ateb lle nad yw wedi gweithio'n dda mewn man arall.
 - Y Gymraeg - efallai na fydd cymwysterau penodedig yn ddwyieithog.
 - Dylid egluro'r hyn a olygir wrth 'craidd' ac 'ychwanegol'.
- 1.5. Eglurodd EG y byddai'r ymgynghoriad llawn yn rhoi un dewis a oedd yn cael ei ffafrio ond y byddai amlinellu'r dewisiadau eraill a oedd yn cael eu hystyried. Cytunodd y Bwrdd y byddai'n agwedd bwysig i'w phwysleisio ac y byddai'n ddefnyddiol deall y meini prawf a ddefnyddiwyd i lunio barn am y dewis gorau. Awgrymwyd y gallai dewisiadau gael eu crynhoi i dri dewis neu fwy, e.e. y newid lleiaf, cymhwyster newydd, cymhwyster cymysg.
- 1.6. Rhoddodd EG grynodedb o'r camau nesaf. Byddai'r Bwrdd yn cael y ddogfen ymgynghori lawn erbyn 223 Awst i roi sylwadau arni, ac awgrymwyd y dylid trefnu cynhadledd ar y teleffon ar gyfer dechrau mis Medi. Dywedwyd wrth y Bwrdd y byddai darparwr allanol yn cael ei gyflogi i ddadansoddi ymatebion yr ymgynghoriad, a byddai cyfarfod i ddiweddarau'r Gweinidog Addysg ym mis Medi.
- 1.7. Daeth y Cadeirydd â'r sesiwn i ben. Cadarnhaodd y Bwrdd eu bod yn fodlon cymeradwyo'r bwriad i ymgynghori am ddyfodol cymwysterau'r ystod oed 14-16 a'u bod yn fodlon gyda'r broses.

Gweithredu: JN drefnu cynhadledd ar y teleffon gyda'r Bwrdd i ddarparu adborth am y ddogfen ymgynghori.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y bwriad i ymgynghori am ddyfodol cymwysterau'r ystod oed 14-16 yng Nghymru.
- ii. Roedd y Bwrdd yn fodlon â'r broses arfaethedig i ymgynghori am ddyfodol cymwysterau'r ystod oed 14-16 yng Nghymru.

2. Cyfres arholiadau'r haf

- 2.1. Rhoddodd Jo Richards (JR) drosolwg o ymagwedd Cymwysterau Cymru ar gyfer arholiadau'r haf, a darparwyd gwybodaeth a sicrwydd i'r Bwrdd am y meysydd dilynol:

- Ceisiadau a goblygiadau ar gyfer canlyniadau.
- Cyfathrebu ac ymwneud rhanddeiliaid.

- 2.2. Trafododd y Bwrdd y data ar geisiadau am gryn amser. Rhoddodd JR grynodedb o ystadegau allweddol ar gyfer y Bwrdd a rhesymau posibl dros y cynnydd neu'r gostyngiad yn niferoedd y ceisiadau. Dywedodd JR bod canlyniadau lefel UG ac Uwch wedi gostwng 8% a 5.1% yn y drefn honno a bod ceisiadau TGAU i fyny 4.5%.
- 2.3. Esboniodd JR y gallai fod ffocws ar Fathemateg lefel Uwch gan nad oedd y cynnwys mwyach yn ddewis, ac felly gallai ysgolion a cholegau fod yn dysgu defnydd newydd. Dywedodd hefyd y gallai Cymraeg Ail Iaith lefel TGAU hefyd fod yn ffocws oherwydd newidiadau strwythurol gyda'r cymhwyster. Tynnwyd sylw at iaith Saesneg lefel TGAU fel maes diddordeb posibl i randdeiliaid, o ganlyniad i bryderon a fynegwyd yn yr haf y llynedd.
- 2.4. Dywedodd JR wrth y Bwrdd fod yr arolwg 'Dweud eich Dweud' wedi cael ymateb mewn cysylltiad â Ffrangeg lefel TGAU a Chymraeg Ail Iaith lefel TGAU. Cadarnhaodd JR y byddai'r wybodaeth yn cael ei chyfleu i CBAC.
- 2.5. Amlinellodd JR y cynigion ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac amlinellodd y cynlluniau ar gyfer y diwrnod canlyniadau, gan gynnwys nifer o sesiynau briffio gyda rhanddeiliaid a llythyr at Lywodraethwyr Cymru ac ACau. Cyfeiriodd JA at y wybodaeth ail-frandio a oedd ar gael ar wefan Cymwysterau Cymru, gan gynnwys adran Arholiadau 360, a blog oddi wrth y Prif Weithredwr ac awgrymiadau ar gyfer swyddogion arholiadau.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd yr ymagwedd at gyfres arholiadau'r haf 2019.

3. Diweddariad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) / Adroddiad Sicrwydd ARAC

- 3.1. Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) ei hadroddiad gan roi crynodeb o weithgaredd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, a'r sicrwydd a gafwyd o'r archwiliad mewnol, yr archwiliad allanol a'r rheolwyr. Cadarnhaodd fod sesiynau caeedig wedi eu cynnal gydag archwilwyr mewnol ac allanol yn unol â'r egwyddor arfer da, a bod y naill a'r llall wedi bod yn gadarnhaol heb fynegi dim pryderon.
- 3.2. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi cwblhau eu harchwiliad a byddent yn cyflwyno barn ddiamedd am gyfrifon y sefydliad. Tynnodd sylw at y crynodeb o archwiliadau mewnol a oedd wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn a barn yr archwilydd allanol a oedd, fel y disgwyliid, yn 'foddhaol'. Amlinellodd AML hefyd y gostyngiadau risg dwfn a oedd wedi digwydd dros y flwyddyn. Gorffennodd drwy ddiolch i'r holl staff a'r archwilwyr am eu gwaith.
- 3.3. Diolchwyd i David Michael am ei gyfnod yn aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor Archwilio, a dywedwyd iddi fod yn fuddiol cael ei arbenigedd technegol o fewn y Pwyllgor tra oedd Aelod o'r Bwrdd yn cael ei recriwtio.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd adroddiad blynyddol Cadeirydd ARAC i'r Bwrdd.

1. Cyfrifon Blynyddol 2018-19

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd Kerry Price (KP) i'r cyfarfod.
- 1.2. Cyflwynodd KP yr eitem gan gadarnhau bod Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) wedi rhoi barn ddiamed am y cyfrifon. Rhoddodd KP drosolwg o'r papur gyda'r cyfrifon a nododd bod gofyn i'r Bwrdd gymeradwyo i'r Prif Weithredwr (fel y Swyddog Cyfrifo) lofnodi Cyfrifon 2018-19. Amlinellodd KP y broses a oedd wedi ei dilyn i ddatblygu a chynhyrchu'r cyfrifon, gan gynnwys trosolwg ARAC. Cadarnhaodd KP hefyd y byddai angen i Gadeirydd y Bwrdd lofnodi'r llythyr sylwadau yn ogystal â'r Prif Weithredwr.
- 1.3. Trafododd y Bwrdd y cyfrifon a chymeradwywyd bod y Prif Weithredwr yn eu llofnodi, yn amodol ar fân newidiadau teipograffyddol.
- 1.4. Diolchodd y Cadeirydd i'r holl staff dan sylw ac i aelodau ARAC am eu cyfraniadau drwy gydol y flwyddyn.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Rhoddodd y Bwrdd ei gymeradwyaeth i'r Prif Weithredwr lofnodi'r Cyfrifon 2018-19 ar gyfer 2018-19.

2. Arolwg chwarter un 2019-20 o'r cynllun gweithredol a'r gyllideb**Adroddiad ar y cynllun gweithredol**

- 2.1. Cyflwynodd JN yr adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o sefyllfa chwarter un yn erbyn y cynllun gweithredu. Rhoddwyd graddfa werdd i'r pedair blaenoriaeth weithredu, ac roedd pob un heblaw pump o'r is-flaenoriaethau hefyd yn wyrdd. Roedd yr is-flaenoriaethau melyn yn ymwneud â'r canlynol:
 - Arolwg Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant - yn ymwneud â'r cymwysterau arbenigedd lefel pedair a phump a oedd wedi eu trafod fel rhan o adroddiad y Prif Weithredwr.
 - Cronfa Ddata Cymwysterau Cymru - problemau gyda swyddogaeth ar gyfer lanlwytho gwybodaeth ac adfywio perfformiad, ac roedd yr amser angenrheidiol i fynd ar ôl problemau a gweithredu dulliau cywiro wedi golygu oedi wrth ddarparu gwelliannau eraill.
 - Pwrcasu system cyllid ac AD newydd - nid oedd y prosiect wedi dechrau'n llawn.

- Datblygiad trefniadol - nid oedd y strwythur a oedd wedi ei gyflwyno wedi ei weithredu'n llawn, na'r recriwtio wedi ei orffen.
 - Cynllun gweithredu'r Iaith Gymraeg - roedd angen rhoi'r cynllun gweithredu ar waith gan fod y Cynllun wedi ei gyhoeddi.
- 2.2. Trafododd y Bwrdd y pedair is-flaenoriaeth felen a gofyn am sicrwydd gan y Corff Gweithredol. Dywedodd PB wrth y Bwrdd y byddai arolwg llawn o'r cynllun gweithredol gyda'r Grŵp Uwch Arweinwyr ym mis Medi.
- 2.3. Amlinellodd JN rai llwyddiannau a oedd yn cynnwys cyhoeddi'r Adroddiad ar Fonitro Diogelwch Bwyd, cymeradwyo gweddill y cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer 2019, a chwblhau'r ymarfer pwrcasu ar gyfer datblygu a darparu cymwysterau Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig.

Adroddiad cyllid

- 2.4. Cyflwynodd KP yr adroddiad cyllid, a oedd yn rhoi crynodeb o sefyllfa chwarter un. Yn yr adroddiad roedd yn cadarnhau bod y Pwyllgor Adnoddau wedi gwneud arolwg o'r sefyllfa fanwl a bod ARAC wedi gwneud arolwg o'r broses gyllidol - yn unol â'u cylch gwaith.
- 2.5. Atgoffwyd aelodau'r Bwrdd gan KP fod y Bwrdd, ar 16 Mai 2019, wedi cymeradwyo'r gyllideb o £8.392m, a nodwyd bryd hynny y byddai angen iteriadau cyllideb pellach wrth i gynlluniau gwariant ar ddiwygio'r cwricwlwm gael eu cadarnhau. Cadarnhaodd KP mai'r sefyllfa alldro ar ddiwedd chwarter un fyddai rhwng £8.004k (rhagolwg isel) ac £8,655k (rhagolwg uchel).
- 2.6. Dywedodd KP wrth y Bwrdd fod y sefyllfa gyllidebol ar ddiwedd y chwarter yn wariant cronriadol o £1,712k yn erbyn cyllideb gronriadol o £1,787k; amrywiad o £75k. Esboniodd KP wrth y Bwrdd y rhesymau dros yr amrywiad hwn, a oedd yn ymwneud yn bennaf â gweithgareddau rhaglenni. Dywedodd KP mai ychydig oedd wedi ei wario ar ddiwygio'r cwricwlwm hyd yn hyn.
- 2.7. Roedd y Bwrdd yn hapus fod graddfa'r amrywio a nodwyd yn arwydd o lefel yr ansicrwydd gweithredol a oedd yn cael ei reoli ar yr adeg honno yn y flwyddyn ariannol, ac nad oedd dim pryderon am gadernid trefniadau rheoli'r gyllideb.
- 2.8. Dywedodd KP wrth y Bwrdd fod y Pwyllgor Adnoddau wedi gofyn a oedd yn beth doeth recriwtio i swyddi diwygio'r cwricwlwm yn barhaol yn hytrach nag am gyfnod penodol. Dywedodd KP fod hyn wedi ei archwilio, ond ystyriwyd bod y risg yn rhy uchel. Esboniodd KP pe bai'r 11 swydd yn cael eu newid o gyfnod penodol i gyfnod parhaol, byddai hynny'n costio £750k yn ychwanegol bob blwyddyn, heb sicrwydd o arian ychwanegol. Byddai hefyd yn ymestyn y potensial o golli swyddi i'r holl staff a hynny'n effeithio ar forâl staff gan fynd â'r gyllideb cyflogau i 66% - 70%. Trafododd y Bwrdd hyn a chytunwyd y dylid recriwtio i'r swyddi fel rhai cyfnod penodol. Diolchodd y Bwrdd i KP am ymchwilio i'r dewis.

Crynodeb o'r Argymhellion:

Nododd y Bwrdd yr arolwg o gyllideb chwarter un gan gynnwys y craffu a oedd wedi'i wneud gan ARAC a chan y Pwyllgor Adnoddau.

3. Meini Prawf Cydnabyddiaeth TAG/TGAU

- 3.1. Croesawodd y Cadeirydd Rachel Heath-Davies (RHD) i'r cyfarfod.
- 3.2. Cyflwynodd RHD y papur a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd i gyhoeddi'r Meini Prawf ar gyfer Cydnabod Cymwysterau TGAU/TAG a'r Rheolau ynglŷn â Cheisiadau am Gydnabod Cymwysterau TGAU/TAG. Dywedodd RHD wrth y Bwrdd fod y ddwy ddogfen wedi eu hadolygu'n fanwl gan y Pwyllgor Rheoleiddio a'u bod wedi rhoi eu cefnogaeth i'w gyflwyno i'r Bwrdd.
- 3.3. Trafodwyd y dogfennau gan y Bwrdd, a oedd yn hapus i'w cymeradwyo. Gofynnodd y Bwrdd am i'r teitl gael ei ystyried, ac a ddylid cyfeirio at gyrff dyfarnu.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y Meini Prawf ar gyfer Cydnabod Cymwysterau TGAU/TAG a'r Rheolau ynglŷn â Cheisiadau am Gydnabod Cymwysterau TGAU/TAG i'w cyhoeddi.

4. Polisi Amodau Trosglwyddo

- 4.1. Cyflwynodd RHD y papur a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd i'r Polisi Amodau Trosglwyddo. Dywedodd wrth y Bwrdd ei fod wedi ei adolygu'n fanwl gan y Pwyllgor Rheoleiddio a'u bod wedi rhoi eu cefnogaeth i'w gyflwyno i'r Bwrdd.
- 4.2. Trafodwyd y Polisi gan y Bwrdd, ac roeddent yn hapus, gyda mân ddiwygiadau, i gymeradwyo'r Polisi Amodau Trosglwyddo.
- 4.3. Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm Polisi a soniodd am y gwaith mawr a oedd wedi ei wneud i lunio'r dogfennau hyn yn derfynol.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y Polisi Amodau Trosglwyddo, yn amodol ar fân ddiwygiadau.

5. Cynllun Dirprwyo

- 5.1. Cyflwynwyd y Cynllun Dirprwyo gan y Cadeirydd ac atgoffodd aelodau'r Bwrdd bod cytundeb wedi bod i adolygu dirprwyadau ar ôl cael adborth o archwiliadau iechyd pwyllgorau ac arolwg perfformiad y Bwrdd. Cyfeiriodd JN at y Cynllun Dirprwyo diwygiedig o fewn y papur, a thynnodd sylw at y ffaith fod diwygiadau a oedd yn cael eu hawgrymu yn ganlyniad i drafodaethau pwyllgor dros y misoedd

blaenorol, yn ogystal â diweddariadau cyffredinol i sicrhau ei fod yn unol â Dogfen Fframwaith newydd Llywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru.

- 5.2. Trafododd y Bwrdd y Cynllun Dirprwyo arfaethedig, a phwysleiswyd pwysigrwydd pwyllgorau'n parhau i gwestiynu a oedd rhywbeth yn newydd neu'n ddadleuol ac felly'n golygu bod angen ei gyfeirio'n ôl at y Bwrdd. Awgrymwyd hefyd y dylid ystyried y strwythur adrodd pwyllgorau oherwydd byddai hwnnw'n bwysicach gyda'r dirprwyadau wedi'u diwygio.
- 5.3. Cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Dirprwyo diwygiedig a gofynnodd am i'r fersiwn derfynol gael ei dychwelyd i'r Bwrdd fel papur gwybodaeth. Gofynnodd y Cadeirydd hefyd i bob Cadeirydd Pwyllgor ystyried y Cylch Gwaith yn eu cyfarfod pwyllgor nesaf.

Gweithredu: JN i ddarparu'r Cynllun Dirprwyo i aelodau'r Bwrdd fel papur gwybodaeth yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.

Gweithredu: Pob Cadeirydd Pwyllgor i ailystyried y Cylch Gwaith.

Gweithredu: JN i ystyried y mecanwaith i Bwyllgorau roi gwybod i'r Bwrdd.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Dirprwyo a rhoddodd sylwadau.

6. Adroddiad y Pwyllgor Rheoleiddio

- 6.1. Darparodd y Cadeirydd ddiweddariad ar y prif feysydd busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 26 Mehefin. Cynhwyswyd cofnodion 2 Mai o fewn y pac i'r Bwrdd er gwybodaeth.
- 6.2. Roedd y prif eitemau a drafodwyd yn y Pwyllgor ar 26 Mehefin yn ymwneud â'r Polisi Amodau Trosglwyddo a'r Meini Prawf ar gyfer Cymwysterau TGAU/TAG a Rheolau am Geisiadau am Gydabyddiaeth i Gymwysterau TGAU/TAG. Roedd eitemau eraill yn cynnwys cyfres arholiadau'r haf a chyflwyniad ar Asesiad Effaith Rheoleiddio ar gymwysterau 14-16 yn y dyfodol. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd am ddymuniad i bwrcasu asesiad allanol o weithgaredd rheoleiddio Cymwysterau Cymru, i nodi i ba raddau y mae'n cyfrannu at y Prif Amcanion. Roedd PB yn dechrau ar gwmpasu'r gwaith hwn, a bydd yn cael ei drafod ymhellach ym mis Medi.

7. Pwyllgor Adnoddau

- 7.1. Darparodd y Cadeirydd ddiweddariad ar y prif feysydd busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 10 Gorffennaf. Cynhwyswyd cofnodion 14 Mawrth 2019 o fewn y pac i'r Bwrdd er gwybodaeth.
- 7.2. Roedd y prif eitemau a drafodwyd yn y Pwyllgor ar 10 Gorffennaf yn ymwneud â'r cynllun gweithredol a'r adroddiad cyllid, a oedd wedi eu trafod ynghynt yn ystod y

cyfarfod. Roedd eitemau eraill yn cynnwys diweddariad AD a thrafod manwl am adnoddau cwricwlwm.

8. Calendr y Bwrdd

- 8.1. Cyfeiriodd JN at ddyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor i ddod, fel yr amlinellwyd yn yr agenda. Cadarnhaodd JN y byddai cyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr yn cael ei gynnal ddydd Iau 23 Ionawr.

9. Unrhyw fater arall

- 9.1. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod ac am eu cyfraniad at y cyfarfod..

Daeth y cyfarfod i ben am 16.00

Diwedd

i.